Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 1/2015

www.cymru.gov.uk

# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:

# Canlyniadau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen hyd at 2011/12 (Adroddiad 2)

**Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:**

**Canlyniadau Disgyblion y Cyfnod Sylfaen hyd at 2011/12 (Adroddiad 2)**

**Chris Taylor, Rhys Davies, Mirain Rhys, Samuel Waldron a David Blackaby**

**(Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd)**

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cytuno â'r safbwyntiau hyn o anghenraid.

Cewch ragor o wybodaeth gan:
Launa Anderson
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5274
E-bost: launa.anderson@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 7 Ionawr 2015
ISBN: 978-1-4734-2832-4

© Hawlfraint y Goron 2015

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Cynnwys


Rhestr o Acronymau ....... i

CRYNODEB GWEITHREDOL ....... ii

1 Cyflwyniad ....... 1

2. Nodweddion Ysgolion y Cyfnod Sylfaen ....... 4

3. Absenoldeb ....... 7

4. Cymharu canlyniadau Cyfnod Allweddol 1 a’r Cyfnod ....... 16

5. Canlyniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2 ....... 20

6 Anghydraddoldeb mewn Canlyniadau ....... 29

7. Casgliadau ....... 34

Cyfeiriadau ....... 38

Atodiad A. Cynnwys Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ....... 40

Atodiad B. Trosolwg o Gymathu Sgoriau Tebyg ....... 42

## Rhestr y Ffigurau

Ffigur 1: Nodweddion dethol disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Derbyn+), fesul cyfnod cyflwyno....4
Ffigur 2: Lefelau absenoldeb parhaus (Blynyddoedd 1 a 2)....10
Ffigur 3: Dilyniant mewn Canlyniadau CA1/CS: Mathemateg....18
Ffigur 4: Dilyniant mewn Canlyniadau CA1/CS: Saesneg....19
Ffigur 5: Canran y disgyblion o ysgolion peilot sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) yng Nghyfnod Allweddol 2....25
Ffigur 6: Cyrhaeddiad cymharol disgyblion o ysgolion peilot yng Nghyfnod Allweddol 2: Cymariaethau gwahaniaethol crai a pharau wedi'u cymathu o ganrannau a gyflawnodd Lefel 4 (neu uwch)....28
Ffigur 7: Anghydraddoldeb mewn absenoldeb parhaus (Blynyddoedd 1 a 2) 30
Ffigur 8: Anghydraddoldeb mewn Saesneg Cyfnod Allweddol 2 (Ysgolion Peilot)....32
Ffigur 9: Anghydraddoldeb mewn mathemateg Cyfnod Allweddol 2 (Ysgolion Peilot)....32
Ffigur 10: Anghydraddoldeb mewn gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2 (Ysgolion Peilot)....33

## Rhestr y Tablau

Tabl 1: Nifer y plant yn y Cyfnod Sylfaen (Derbyn+), fesul cyfnod cyflwyno ....3
Tabl 2: Nifer y plant i bob oedolyn mewn ysgolion ar gyfartaledd (Derbyn i Flwyddyn 2), fesul cyfnod cyflwyno....6
Tabl 3: Canran y diwrnodiau presennol (Blynyddoedd 1 a 2), fesul cyfnod cyflwyno....9
Tabl 4: Newid yng nghanran y diwrnodau presennol drwy ddefnyddio amcangyfrifon aml-amrywedd, fesul cyfnod cyflwyno....13
Tabl 5: Tebygolrwydd cymharol absenoldeb parhaus drwy ddefnyddio amcangyfrifon aml-amrywedd, fesul cyfnod cyflwyno....13
Tabl 6: Tebygolrwydd cymharol absenoldeb heb ganiatâd drwy ddefnyddio amcangyfrifon aml-amrywedd, fesul cyfnod cyflwyno....14

Tabl 7: Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 sydd ar gael ar gyfer Disgyblion Cyfnod Sylfaen, fesul cyfnod cyflwyno ............ 21
Tabl 8: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) mewn Saesneg CA2, fesul cyfnod cyflwyno ............ 22
Tabl 9: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) mewn Mathemateg CA2, fesul cyfnod cyflwyno ............ 23
Tabl 10: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) mewn Gwyddoniaeth CA2, fesul cyfnod cyflwyno ............ 24
Tabl 11: Dadansoddiad PSM o effaith y Cyfnod Sylfaen ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ............ 27

## Rhestr o Acronymau

| | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| CA1 | Cyfnod Allweddol 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CA2 | Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol |
| CCC | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| CDA | Cymarebau Disgyblion Athrawon |
| CGD | Cronfa ddata Genedlaethol y Disgyblion |
| CS | Cyfnod Sylfaen |
| CST | Cymathu Sgoriau Tebyg |
| cyf | Categori cyfeiriol (ystadegau aml-amrywedd) |
| DIG | Datblygiad Iaith Gymraeg |
| DM | Datblygiad Mathemategol |
| DPChLlADd | Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol |
| ILlC | Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu |
| PYDd | Prydau ysgol am ddim |
| RhAA | Rhagdybiaeth Annibynnol Amodol |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru |

## CRYNODEB GWEITHREDOL

### *Cyflwyniad*

1. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn bolisi blaenllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar (i blant 3 i 7 oed) yng Nghymru. Gan ddilyn trywydd tra gwahanol i'r dull mwy ffurfiol, seiliedig ar allu oedd yn gysylltiedig â Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol Cyfnod Allweddol 1, mae'n hyrwyddo dull dysgu ac addysgu datblygol, arbrofol, sy'n seiliedig ar chwarae. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi* (CCC 2001) yn nodi mai bwriad Cymru, ar ôl datganoli, yw dilyn ei chwys ei hun yng nghyd-destun polisi er mwyn 'gwneud yr hyn sydd orau i Gymru'.Yn ôl pob golwg, roedd gwneud yr hyn sydd orau i Gymru yn cynnwys mynd i'r afael â heriau'r farchnadle fyd-eang (codi lefelau sgiliau sylfaenol[1]); goresgyn anfantais gymdeithasol, adeiladu cymdeithas gref a mentrus sy'n cofleidio amlddiwylliant; a hyrwyddo iaith a thraddodiadau Cymru. Roedd cymryd rhan yn cael ei ystyried yn ymagwedd allweddol.
2. Mae'r adroddiad hwn yn deillio o'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i arwain gan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD).
3. Dyma'r ail mewn cyfres o adroddiadau sy'n bwrw golwg ar y canlyniadau sydd ar gael drwy ddadansoddi Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Yn benodol, mae'n cyflwyno canfyddiadau am gyfraddau absenoldeb ac asesiadau athrawon ar gyfer pob plentyn yng Nghymru oedd rhwng pedair a saith oed rhwng 2004/05 a 2011/12. Mae cynnwys data 2011/12 yn golygu bod pob un o gyfnodau cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi'u cynnwys h.y. 2011/12 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd pob disgybl ym Mlwyddyn 2 yng Nghymru eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen. Mae cael y data hwn wedi golygu bod modd ehangu cwmpas y dadansoddiad mewn rhai meysydd.
4. Prif nod yr adroddiad hwn yw cymharu canlyniadau plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen â chanlyniadau plant fu'n dilyn Cyfnod Allweddol 1 y

[1] Llythrennedd a rhifedd yw'r term am hyn ym nogfennau polisi diweddar Llywodraeth Cymru.

Cwricwlwm Cenedlaethol yn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau am nifer o ganlyniadau pwysig, gan gynnwys:

i. cyfraddau a natur absenoldeb
ii. asesiadau athrawon a baratowyd ym Mlwyddyn 2 (h.y. asesiadau a gynhaliwyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 neu'r Cyfnod Sylfaen)
iii. asesiadau athrawon a baratowyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (h.y. ym Mlwyddyn 6).

***Presenoldeb***

5. O ran absenoldeb, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn yr ysgolion oedd yn rhan o'r cyfnod cyflwyno olaf, wedi bod yn gysylltiedig â gwella lefelau presenoldeb y disgyblion yn gyffredinol. Mesurir hyn o ran cyfran y sesiynau y mae'r disgyblion yn yr ysgol, lefelau is o absenoldeb parhaus, a gostyngiad yn nifer yr absenoldebau heb ganiatâd.

***Asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2***

6. O ran asesiadau athrawon, nid oedd y dadansoddiad yn gallu pennu a oedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi effeithio ar lefelau cyrhaeddiad y disgyblion ym Mlwyddyn 2. Ochr yn ochr â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, cafodd dulliau asesu disgyblion eu newid o ran y meysydd pwnc o dan sylw a lefelau graddio'r disgyblion. Er mai cael rhywfaint o gysondeb rhwng y ddau ddull asesu oedd y nod, gan ddisgwyl y byddai'r lefel cyrhaeddiad disgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 1 (Lefel 2) yn cyfateb i'r lefel cyrhaeddiad disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen (Lefel 5), nid yw hyn wedi digwydd mewn ysgolion peilot a Dechrau'n Gynnar.
7. Yn ôl pob golwg, mae lefelau cysondeb yn gwella yn ystod cyfnod cyflwyno olaf y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, ni chyflwynir cymariaethau o'r sefyllfa flaenorol a'r sefyllfa bresennol yn yr ysgolion hyn, gan na fyddai wedi bod yn bosibl asesu ai gwelliannau go iawn mewn lefelau cyrhaeddiad neu newidiadau yn y modd y cafodd disgyblion eu graddio oedd yn gyfrifol am unrhyw newidiadau yn nifer y disgyblion oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig.

***Asesiadau Athrawon Cyfnod Allweddol 2***

8. Gan fod dulliau asesu gwahanol ym Mlwyddyn 2 yn sgìl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, asesiadau athrawon a baratowyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) yw'r unig sylfaen gyson ar gyfer cymharu canlyniadau addysgol disgyblion drwy ddefnyddio cofnodion gweinyddol Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod data ar gael am ganlyniadau'r plant a aeth drwy'r Cyfnod Sylfaen yn amharu ar y dadansoddiad hwn.
9. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod perfformiad cymharol carfanau cynnar o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion peilot yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gwella o gymharu â chyrhaeddiad carfanau cynharach o ddisgyblion yn yr un ysgolion.
10. Ar hyn o bryd, ni all y canlyniadau fod yn rhai cwbl derfynol ac mae'r technegau amcangyfrif a ddefnyddiwyd yn mynd i effeithio arnynt. Ar ben hynny, ni ellir cyffredinoli canlyniadau sy'n seiliedig ar y carfanau cynnar hyn ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth gynnar sy'n awgrymu bod perfformiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn Saesneg a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gwella.

***Anghydraddoldeb mewn canlyniadau***

11. Roedd lleihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau cymdeithasol ac addysgol yn nodwedd bwysig yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn dangos nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau o bwys hyd yma yng nghanlyniadau gwahanol is-grwpiau, fel y rhai sydd wedi'u diffinio yn ôl cenedl, ethnigrwydd a chefndir cymdeithasol-economaidd.
12. Mae anghydraddoldeb i'w weld o hyd o ran absenoldeb a chyrhaeddiad. Mae'r grwpiau sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig ymhlith y grwpiau sy'n dangos yr anfanteision mwyaf o ran canlyniadau addysgol.
13. Er bod enghreifftiau unigol yn awgrymu bod gwelliant, yr un yw'r patrymau cyffredinol o anghydraddoldeb oedd yn bodoli cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Er hyn, derbyniwyd yn gyffredinol fod ymyrraeth wedi ei

ffocysu a'i dargedu yn fwy addas ar gyfer taclo anghydraddoldebau addysgol i gymharu ag ymyrraeth gyffredinol (Kerr a West, 2010).

***Dadansoddiad yn y dyfodol***

14. Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr ail ddadansoddiad sy'n seiliedig ar ddata ar Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Bydd y cam olaf yn ceisio ymgorffori data arall a gasglwyd yn y gwerthusiad. Bydd hyn yn bwysig er mwyn amlygu effaith bosibl y Cyfnod Sylfaen pe byddai'n cael ei weithredu'n llawn.

# 1 Cyflwyniad

1.1. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn bolisi blaenllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar (i blant 3 i 7 oed) yng Nghymru. Gan ddilyn trywydd tra gwahanol i'r dull mwy ffurfiol, seiliedig ar allu oedd yn gysylltiedig â Chwricwlwm Cenedlaethol blaenorol Cyfnod Allweddol 1, mae'n hyrwyddo dull dysgu ac addysgu datblygol, arbrofol, sy'n seiliedig ar chwarae (Maynard *et al.* 2013).

1.2. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion cynradd (neu fabanod) mewn tri chyfnod. Yn gyntaf, yn ystod 2004/05, rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith mewn 22 o ysgolion. Gelwir y rhain yn ysgolion peilot. Yn ail, rhoddwyd y Cyfnod Sylfaen ar waith mewn 22 o ysgolion eraill yn 2007/08. Gelwir y rhain yn ysgolion Dechrau'n Gynnar. Yn olaf, cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen ym mhob ysgol oedd yn weddill yng Nghymru yn 2008/09. Gelwir y rhain yn ysgolion y cyflwyniad terfynol.

1.3. Yn ogystal â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn raddol mewn gwahanol ysgolion, cyflwynodd pob ysgol y Cyfnod Sylfaen fesul carfan, gan ddechrau gyda phlant yn y dosbarth meithrin a/neu'r dosbarth derbyn. Felly, yn ystod y blynyddoedd cyntaf y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion, byddai'r plant yn y carfanau hŷn wedi bod yn dilyn Cyfnod Allweddol 1 (CA1) y Cwricwlwm Cenedlaethol, tra bod y plant iau yn dilyn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ffaith fod llawer o ddosbarthiadau cymysg o ran oed/carfan yng Nghymru, yn enwedig mewn ysgolion cynradd bach, yn golygu y byddai rhai ysgolion wedi bod yn cyflwyno'r ddau gwricwlwm ar yr un pryd gan yr un athrawon, ond i wahanol grwpiau o blant.

1.4. Dyma'r ail mewn cyfres o adroddiadau sy'n deillio o'r gwerthusiad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (Taylor *et al.* 2013, 2014) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i arwain gan Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD). Mae'n seiliedig ar ddadansoddiad o Gronfa Ddata

Genedlaethol y Disgyblion. Mae data gweinyddol am bob plentyn ysgol yng Nghymru ar y gronfa. Mae'n cynnwys gwybodaeth allweddol am nodweddion plant ysgol yn ogystal â manylion eraill am eu cynnydd addysgol ar sail asesiadau athrawon a data am bresenoldeb yn bennaf.

1.5. Defnyddiodd yr adroddiad cyntaf yn y gyfres hon (Davies *et al.* 2013) ddata CGD o 2004/05 hyd at, a chan gynnwys, 2010/11 (h.y. saith mlynedd o ddata addysgol perthnasol). Mae'r ail adroddiad byrrach hwn yn diweddaru'r dadansoddiad blaenorol drwy ddefnyddio data newydd CGD ar gyfer 2011/12. Mae'r ddau adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau am gyfraddau absenoldeb ac asesiadau athrawon ar gyfer pob plentyn yng Nghymru. Yn bwysicaf oll, mae 2011/12 yn cynnwys canlyniadau Cyfnod Sylfaen ar gyfer y garfan gyntaf o blant Blwyddyn 2 yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf.

1.6. Mae Tabl 1 yn amlinellu nifer y disgyblion yn y CGD fu'n rhan o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae modd gweld sut cafodd y Cyfnod Sylfaen ei gyflwyno fesul tipyn ymhlith y carfanau olynol o blant. Nod yr adroddiad hwn yw cymharu canlyniadau'r plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen â chanlyniadau'r plant a ddilynodd CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn flaenorol. Fel y mae Tabl 1 yn ei ddangos, 2010/11 oedd y flwyddyn olaf y dilynodd unrhyw blentyn yng Nghymru CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

1.7. Amlygir tri grŵp o ddisgyblion yn yr adroddiad hwn a'r un flaenorol:

i. disgyblion mewn ysgolion lle nad oedd y Cyfnod Sylfaen wedi'i gyflwyno eto ('CA1');
ii. disgyblion mewn ysgolion Cyfnod Sylfaen, ond nad oeddent wedi'u hasesu (neu ar fin cael eu hasesu) drwy'r Cyfnod Sylfaen ('tu allan i'r CS); a
iii. disgyblion oedd yn dilyn y Cyfnod Sylfaen ac yn cael eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen ('yn y CS ').

1.8. Wrth werthuso canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen, gellir dadansoddi'r CGD mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, gellir cymharu canlyniadau cyn, ac ar

ôl, cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy gymharu canlyniadau plant mewn gwahanol garfanau. Mae'r ail ddull yn defnyddio'r ffordd ddilyniannol y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen, a amlinellir uchod, i gymharu canlyniadau plant a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen â chanlyniadau plant a ddilynodd CA1 o'r un flwyddyn academaidd. Mae Taylor *et al.* (2013) yn rhoi mwy o fanylion am y dull hwn o gyflwyno rhaglen newydd ar wahanol adegau a chewch wybod mwy am gyfyngiadau'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gan Davies *et al.* (2013).

1.9. Mae'r adroddiad hwn yn dechrau gyda chrynodeb o nodweddion y disgyblion sy'n mynychu ysgolion sydd ar wahanol gyfnodau cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (Pennod 2). Ym Mhennod 3, ystyrir effaith y Cyfnod Sylfaen ar bresenoldeb drwy ddefnyddio data diweddaraf o'r CGD (2011/12). Ym Mhennod 4, mae canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ac asesiadau Cyfnod Allweddol 1 yn cael eu cymharu â'u cyferbynnu, ac wedyn ystyrir perfformiad cymharol disgyblion Cyfnod Sylfaen mewn asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 2 ym Mhennod 5. Yn olaf, ym Mhennod 6, ystyrir effaith y Cyfnod Sylfaen ar anghydraddoldeb o ran canlyniadau ym mlynyddoedd cynnar addysg gynradd.

**Tabl 1: Nifer y plant yn y Cyfnod Sylfaen (Derbyn+), fesul cyfnod cyflwyno**


| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cyfnod Cyflwyno Olaf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Yn y CS |
| 2004/05 | 1,076 | 847 | 2,942 | 0 | 95,709 | 0 |
| 2005/06 | 407 | 1,496 | 2,880 | 0 | 92,849 | 0 |
| 2006/07 | 52 | 1,862 | 2,831 | 48 | 90,554 | 0 |
| 2007/08 | 0 | 1,906 | 1,891 | 935 | 90,186 | 0 |
| 2008/09 | 0 | 1,834 | 940 | 1,903 | 90,570 | 0 |
| 2009/10 | 0 | 1,892 | 41 | 2,848 | 60,828 | 31,485 |
| 2010/11 | 0 | 1,918 | 0 | 2,959 | 30,693 | 63,359 |
| 2011/12 | 0 | 1,934 | 0 | 2,994 | 0 | 95,885 |

*Ffynhonnell: CGD: 2004/05-2011/12*

## 2. Nodweddion Ysgolion y Cyfnod Sylfaen

2.1. Yn y bennod hon, amlinellir rhai o brif nodweddion y disgyblion sy’n mynychu’r ysgolion peilot a Dechrau’n Gynnar o gymharu â’r rhai yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf. Dewiswyd pob ysgol Dechrau’n Gynnar ar sail y ffaith eu bod wedi eu lleoli yn ardaloedd rhaglen Dechrau’n Deg Llywodraeth Cymru. Rhaglen ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Dechrau’n Deg. Mae ar gyfer teuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed ac sy’n byw yn rhai o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru[2]. Mae’r dadansoddiad yn Ffigur 1 yn cadarnhau bod plant yn yr ysgolion Dechrau’n Gynnar yn llawer mwy tebygol o allu hawlio prydau ysgol am ddim; mae cyfran y disgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion Dechrau’n Gynnar (41%) bron ddwywaith y lefel ymhlith ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf (21%).

**Ffigur 1: Nodweddion dethol disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Derbyn+), fesul cyfnod cyflwyno**




*Ffynhonnell: CGD: 2004/05-2011/12*

2.2. Mae’r gyfran uwch o ddisgyblion AAA mewn ysgolion Dechrau’n Gynnar yn adlewyrchu natur gymharol ddifreintiedig yr ysgolion hyn

[2] http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy

hefyd. Yn benodol, mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar, roedd tua 29% o'r disgyblion wedi'u categoreiddio fel AAA yn ystod y cyfnod o dan sylw yn y data ar CGD. Mae hyn tua 11 pwynt canran yn uwch na'r hyn a welwyd yng Nghymru'n gyffredinol (18%).

2.3. Wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, mae ymrwymiad i gael cymhareb newydd (uwch) rhwng oedolion a phlant. 1:8 oedd y nod ar gyfer disgyblion tair i bump oed a 1:15 oedd y nod ar gyfer y rhai chwech i saith oed. Mae'r graddau y cadwyd at y cymarebau hyn ar ôl cyflwyno'r rhaglen yn arwydd cynnar o effaith y Cyfnod Sylfaen.

2.4. Mae Tabl 2 yn rhoi cyfuniad o gymarebau oedolion i blant ar gyfer y rhai yn y Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2. Oherwydd lefel y manylder yn y data gweinyddol, ni ellir cyflwyno cymarebau oedolion i blant ar wahân ar gyfer grwpiau penodol o flynyddoedd. Felly, nid oes modd gwahaniaethu rhwng carfanau yn ôl y rhai oedd yn y Cyfnod Sylfaen ai peidio. Fodd bynnag, mae Tabl 2 yn dangos y bu cwymp yn nifer y plant fesul oedolyn yn syth ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ymhlith yr ysgolion Dechrau'n Gynnar. Mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar yn ystod 2007/08, gwelir bod cymarebau oedolion i blant yn gwella o oddeutu chwe disgybl fesul oedolyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n anoddach asesu effaith cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ar gymarebau oedolion i blant mewn ysgolion Peilot gan nad oes data ar gael cyn 2004/05. Fodd bynnag, gwelir bod cyfradd y gwelliant mewn cymarebau oedolion i blant yn uwch na'r hyn a welir yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf. Ymhlith yr ysgolion hyn, ceir gwelliant o oddeutu dau ddisgybl i bob oedolyn yn y cymarebau oedolion o blant tua'r cyfnod y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen i blant dosbarth derbyn (2008/09).

**Tabl 2: Nifer y plant i bob oedolyn mewn ysgolion ar gyfartaledd[3] (Derbyn i Flwyddyn 2), fesul cyfnod cyflwyno[4]**

| Blwyddyn | Cyfnod Cyflwyno<br>Peilot | <br>Dechrau'n Gynnar | <br>Cyfnod Cyflwyno Olaf | Pob Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| 2004/05 | 14.6 | 17.2 | 14.8 | 14.9 |
| 2005/06 | 13.7 | 15.4 | 14.7 | 14.7 |
| 2006/07 | 12.2 | 16.9 | 14.2 | 14.2 |
| 2007/08 | 11.7 | 11.1 | 13.8 | 13.7 |
| 2008/09 | 10.5 | 10.9 | 11.5 | 11.5 |
| 2009/10 | 8.7 | 10.2 | 10.6 | 10.6 |
| 2010/11 | 9.3 | 9.7 | 10.2 | 10.1 |
| 2011/12 | 10.6 | 9.6 | 9.8 | 9.8 |
| **Cyfanswm** | **11.4** | **12.6** | **12.5** | **12.5** |
| **2004/05-2011/12** | **-4.0** | **-7.6** | **-5.0** | **-5.0** |

*Ffynhonnell: CGD: 2004/05-2011/12*

[3] Drwy'r dadansoddiad hwn, mae 'oedolion' yn golygu athrawon a chynorthwywyr addysgu.

[4] Mae canlyniadau'r tabl hwn yn dra gwahanol i'r Tabl 4 cyfatebol yn yr adroddiad CGD cyntaf o'r gwerthusiad (Davies *et al*. 2013:15). Y ffaith bod y tabl gwreiddiol yn seiliedig ar wybodaeth anghywir sydd i gyfrif am hyn. Y tabl uchod yw'r fersiwn gywir.

## 3. Absenoldeb

3.1. Gallai presenoldeb fod yn faes lle gallai'r Cyfnod Sylfaen gael effaith bwysig ar blant. Gall presenoldeb uwch adlewyrchu newidiadau mewn agweddau (ymysg plant a rhieni) at addysg gynradd. Felly, mae'n bwysig asesu a yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi effeithio ar lefelau absenoldeb.

3.2. Pan gofnodir disgybl yn absennol, mae'r gofrestr yn cofnodi a gafodd yr absenoldeb ei ganiatáu ai peidio. Dyma ddiffiniadau Llywodraeth Cymru o absenoldebau gyda chaniatâd neu hebddo:

- Absenoldeb gyda chaniatâd - absenoldeb gyda chaniatâd athro/ athrawes neu gynrychiolydd arall ag awdurdod yn yr ysgol. Bydd yn cynnwys achosion o ganiatâd lle rhoddwyd eglurhad boddhaol ar ei gyfer (e.e. salwch, profedigaeth deuluol neu arferion crefyddol).
- Absenoldeb heb ganiatâd - absenoldeb heb ganiatâd athro/ athrawes neu gynrychiolydd arall ag awdurdod yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb sydd heb ei egluro neu ei gyfiawnhau.

3.3. Casglwyd data am absenoldeb ar lefel disgyblion gan ysgolion cynradd a gynhelir am y tro cyntaf yn 2007/08. Felly, ni ellir rhoi unrhyw wybodaeth am lefelau absenoldeb mewn ysgolion peilot cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Ar ben hynny, ymhlith ysgolion Dechrau'n Gynnar, roedd 2007/08 yn ystod y cyfnod pontio pan oedd rhai carfanau o blant yn parhau i gael eu hasesu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Felly, nodir nad yw data am absenoldeb ar gael ar gyfer ysgolion Dechrau'n Gynnar cyn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith.

3.4. Dim ond plant sy'n gorfod mynd i'r ysgol (5+ oed) sydd o dan sylw yn y data am absenoldeb. Felly, mae'r dadansoddiad dilynol yn ymwneud â disgyblion Blynyddoedd 1 yn unig mewn ysgolion cynradd (h.y. nid yw plant y dosbarthiadau Derbyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad).

Mae'r dadansoddiad o absenoldeb yn canolbwyntio ar hyd at dri dull mesur sy'n deillio o'r CGD:

i. Diwrnodiau presennol: dyma'r amser y mae disgyblion yn bresennol yn yr ysgol, a chaiff ei fesur yng nghyd-destun cyfran y sesiynau hanner diwrnod yr oedd y disgyblion yn bresennol.
ii. Absenoldeb parhaus: dyma'r disgyblion sydd wedi bod yn absennol am o leiaf 20% o'r sesiynau hanner diwrnod yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r dull mesur hwn wrth gyflwyno data am absenoldeb disgyblion.
iii. Absenoldeb heb ganiatâd: dyma gyfran y disgyblion sydd wedi bod yn absennol heb ganiatâd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ysgol.

3.5. Yn ein hadroddiad cyntaf (Davies *et al.* 2013), dangoswyd bod gan ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen lefelau absenoldeb tebyg i'r ysgolion yn y cyfnod cyflwyno olaf, a'r un yw'r sefyllfa o hyd. (Tabl 3). Yn wir, mae lefelau presenoldeb wedi codi 0.3 pwynt canran yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf yn ôl pob golwg.

3.6. Ar draws pob ysgol, mae lefelau absenoldeb tua thri phwynt canran yn uwch ymhlith disgyblion sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid oedd lefelau presenoldeb is ymhlith disgyblion mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar lle'r oedd cyfran uwch o ddisgyblion yn gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim.

3.7. Mae patrymau tebyg i'w gweld o ran absenoldeb parhaus. Mae'r dystiolaeth sydd wedi bod ar gael hyd yma'n awgrymu bod lefelau absenoldeb parhaus wedi gostwng 0.5 pwynt canran yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (Ffigur 2). Dylid nodi bod hyn yn gwymp o 13% mewn lefelau absenoldeb parhaus. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sydd hefyd yn dangos gostyngiad mewn absenoldeb parhaus mewn ysgolion cynradd ers 2009/10.


**Tabl 3: Canran y diwrnodiau presennol (Blynyddoedd 1 a 2), fesul cyfnod cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | | Cyfnod cyflwyno olaf | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Yn y CS | |
| **Cenedl** | | | | | | | |
| Gwryw | | 92.4 | 91.5 | 91.5 | 92.9 | 93.3 | 93.0 |
| Benyw | | 92.2 | 91.8 | 91.5 | 92.9 | 93.1 | 92.9 |
| *Gwahaniaeth* | | *0.2* | *-0.3* | *0.0* | *0.0* | *0.1* | *0.1* |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Gwyn | | 92.7 | 92.0 | 91.9 | 93.1 | 93.5 | 93.2 |
| Arall | | 90.6 | 88.7 | 88.8 | 90.7 | 91.0 | 90.7 |
| *Gwahaniaeth* | | *2.1* | *3.3* | *3.1* | *2.5* | *2.4* | *2.5* |
| **Statws PYDd** | | | | | | | |
| Nid PYDd | | 93.0 | 92.4 | 92.5 | 93.6 | 93.9 | 93.6 |
| PYDd | | 89.9 | 90.4 | 90.2 | 90.2 | 90.6 | 90.3 |
| *Gwahaniaeth* | | *3.1* | *1.9* | *2.3* | *3.4* | *3.3* | *3.3* |
| **Statws AAA** | | | | | | | |
| Nid AAA | | 92.8 | 92.2 | 92.1 | 93.4 | 93.6 | 93.4 |
| AAA | | 90.9 | 90.4 | 90.5 | 91.2 | 91.7 | 91.3 |
| *Gwahaniaeth* | | *1.9* | *1.8* | *1.6* | *2.2* | *1.9* | *2.1* |
| **Cyfanswm** | | **92.3** | **91.6** | **91.5** | **92.9** | **93.2** | **92.9** |

*Ffynhonnell: CGD: 2007/08-2011/12*

3.8. Mae dadansoddiad pellach sydd heb ei gyflwyno yma yn awgrymu hefyd fod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf, wedi bod yn gysylltiedig â lefelau uwch ym mhresenoldeb cyffredinol y disgyblion. Cafodd hwn ei fesur yng nghyd-destun cyfran y sesiynau y mae disgyblion yn yr ysgol a gostyngiad yn nifer yr absenoldebau heb ganiatâd.

**Ffigur 2: Lefelau absenoldeb parhaus (Blynyddoedd 1 a 2)**[5]




*Ffynhonnell: CGD: 2007/08-2011/12*

**Amcangyfrif effaith y Cyfnod Sylfaen ar absenoldeb**

3.9. Fel yn ein hadroddiad blaenorol, mae diddordeb arbennig gennym mewn sut gallai'r Cyfnod Sylfaen fod yn dylanwadu ar absenoldeb ar ôl rheoli nodweddion y disgyblion. Felly, y cwestiwn i'w ofyn yw a ydy lefelau absenoldeb yn uwch neu'n is na beth fyddem wedi'i ddisgwyl o ystyried nodweddion unigol y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

3.10. Er mwyn deall y materion hyn yn well, rydym yn defnyddio dull ystadegol sy'n gallu amlygu sut gall amrywiaeth o nodweddion sy'n ymwneud ag unigolion neu'r ysgolion yn cyfrannu at y lefelau absenoldeb a welir (gweler Davies et al. 2013 am eglurhad pellach). Mae hyn yn rhoi arwydd mwy cadarn o effaith bosibl y Cyfnod Sylfaen ar absenoldeb.

3.11. Mae tair cyfres o fodelau atchwel wedi'u hamcangyfrif (Tablau 4 i 6):

- Mae'r gyfres gyntaf yn ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen ar lefelau absenoldeb yn gyffredinol. Mae'r dull hwn yn defnyddio manyleb

[5] http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130515-absenteeism-pupil-characteristics-2011-12-en.pdf

Sgwariau Isafswm Llinellol sylfaenol ac mae'n ystyried pa ffactorau sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth ni o ba ddisgyblion sy'n bresennol am fwy neu lai o amser yn y flwyddyn academaidd. Mae Tabl 4 yn dangos y newid canrannol yn nifer y sesiynau a fynychwyd[6]• .

- Mae'r ail gyfres o fodelau'n ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen ar lefelau absenoldeb parhaus. Dosberthir disgyblion yn ôl p'un a ydynt yn absennol yn barhaus ai peidio yn yr achos hwn. Mae Tabl 5 yn rhoi canlyniadau am y tebygolrwydd cymharol bod disgybl wedi bod yn absennol yn barhaus yn ystod y flwyddyn academaidd.
- Mae'r drydedd gyfres o fodelau'n ystyried effaith y Cyfnod Sylfaen ar lefelau absenoldeb heb ganiatâd. Dosberthir disgyblion yn yr achos yma yn ôl p'un a ydynt wedi bod yn absennol heb ganiatâd yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Tabl 6 yn rhoi canlyniadau am y tebygolrwydd cymharol bod disgybl wedi bod yn absennol heb ganiatâd yn ystod y flwyddyn academaidd.

3.12. Ar gyfer yr ail a'r drydedd gyfres o fodelau, defnyddir atchweliadau logisteg wedi hynny i bennu pa nodweddion sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd cymharol o gategoreiddio plentyn fel un sy'n absennol yn barhaus neu sydd wedi bod yn absennol heb ganiatâd. Ym mhob cyfres o atchweliadau, amcangyfrifir chwe model gwahanol er mwyn manteisio ar y modd dilynol y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen (i roi 18 model i gyd). Amcangyfrifir modelau ar gyfer grwpiau blwyddyn penodol hefyd i ofalu bod yr un mathau o grwpiau'n cael eu cymharu.

3.13. Canlyniadau'r dadansoddiad yn Nhablau 4 i 6. Er mwyn esbonio'n haws, dim ond canlyniadau am y Cyfnod Sylfaen a ddangosir. Cafodd pob model ystadegol eu rheoli ar yr un pryd ar gyfer amrywiaeth o nodweddion eraill, gan gynnwys cenedl, oed, ethnigrwydd, cymhwysedd am PYDd a statws AAA. Mae'r newidynnau rheoli hyn wedi'u cynnwys ar lefelau unigolion ac ysgolion (e.e. canran y

[6] Mesurir presenoldeb mewn ysgolion fesul sesiynau hanner diwrnod; presenoldeb yn y bore a phresenoldeb yn y prynhawn.

disgyblion mewn ysgol sy’n wyn). Defnyddir sêr i ddangos cysylltiadau ystadegol o bwys ar lefelau pwysigrwydd 5% (**) a 10% (*).

3.14. Mae Modelau 1 a 2 yn dangos bod lefelau presenoldeb wedi gwella ymhlith disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 yn y Cyfnod Sylfaen (Yn y CS) o gymharu â’r rhai nad oeddent yn y Cyfnod Sylfaen (Tu allan i’r CS) (Tabl 4). Amcangyfrifir hefyd fod lefelau presenoldeb yn uwch ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 yn yr ysgolion peilot a Dechrau’n Gynnar ac ymhlith disgyblion Blwyddyn 2 mewn ysgolion Dechrau’n Gynnar.

3.15. Mae Modelau 3 a 4 yn ailadrodd y dadansoddiad ar gyfer ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf yn unig. Unwaith eto, amcangyfrifir bod presenoldeb yn gwella 0.7% ymhlith disgyblion Blwyddyn 1 ac 0.8% ymhlith disgyblion Blwyddyn 2. Mae dadansoddiadau o ddata’r CGD yn dangos bod disgyblion yn mynychu tua 370-375 o sesiynau bob blwyddyn. Felly, mae cynnydd o 0.7% mewn presenoldeb yn cyfateb i tua 2.5 o sesiynau, ac mae cynnydd o 0.8% yn cyfateb i tua 3 sesiwn.

3.16. Gydag ysgolion Dechrau’n Gynnar, ceir cyfle hefyd i gymharu plant oedd yn y Cyfnod Sylfaen â’r rhai a aseswyd drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn wahanol i’n hadroddiad blaenorol, mae Model 6 yn awgrymu bod presenoldeb wedi *gwella* 0.7% ymhlith disgyblion Blwyddyn 2 mewn ysgolion Dechrau’n Gynnar, sy’n cyfateb i fynychu 2.5 o sesiynau ychwanegol.

**Tabl 4: Newid yng nghanran y diwrnodau presennol drwy ddefnyddio amcangyfrifon aml-amrywedd, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Sampl lawn | | Cyfnod cyflwyno olaf | | Dechrau'n Gynnar | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 1 | Bl. 2 |
| | Model 1 | Model 2 | Model 3 | Model 4 | Model 5 | Model 6 |
| Peilot | | | | | | |
| Tu allan i'r CS | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| Yn y CS | 0.3* | -0.1 | | | | |
| Dechrau'n Gynnar | | | | | | |
| Tu allan i'r CS | 0.4 | 0.1 | | | cyf. | |
| Yn y CS | 0.8** | | | | 0.3 | 0.7** |
| Cyfnod cyflwyno olaf | | | | | | |
| Tu allan i'r CS | cyf. | | cyf. | | | |
| Yn y CS | 0.7** | 0.9** | 0.7** | 0.8** | | |

*Ffynhonnell: CGD: 2007/08-2011/12* (* p<0.10, ** p<0.05)

**Tabl 5: Tebygolrwydd cymharol absenoldeb parhaus drwy ddefnyddio amcangyfrifon aml-amrywedd, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Sampl lawn | | Cyfnod cyflwyno olaf | | Dechrau'n Gynnar | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 1 | Bl. 2 |
| | Model 7 | Model 8 | Model 9 | Model 10 | Model 11 | Model 12 |
| Peilot | | | | | | |
| Tu allan i'r CS | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| Yn y CS | 0.958 | 1.049 | | | | |
| Dechrau'n Gynnar | | | | | | |
| Tu allan i'r CS | 0.790 | 0.971 | | | cyf. | |
| Yn y CS | 0.790** | 0.751** | | | 1.032 | 0.840 |
| Cyfnod cyflwyno olaf | | | | | | |
| Tu allan i'r CS | cyf. | | cyf. | | | |
| Yn y CS | 0.732** | 0.713** | 0.732** | 0.712** | | |

*Ffynhonnell: CGD: 2007/08-2011/12* (* p<0.10, ** p<0.05)

**Tabl 6: Tebygolrwydd cymharol absenoldeb heb ganiatâd drwy ddefnyddio amcangyfrifon aml-amrywedd, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Sampl lawn | | Cyfnod cyflwyno olaf | | Dechrau’n Gynnar | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bl. 1** | **Bl. 2** | **Bl. 1** | **Bl. 2** | **Bl. 1** | **Bl. 2** |
| | Model 13 | Model 14 | Model 15 | Model 16 | Model 17 | Model 18 |
| Peilot | | | | | | |
| Tu allan i’r CS | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| Yn y CS | 1.190 | 1.346 | | | | |
| Dechrau’n Gynnar | | | | | | |
| Tu allan i’r CS | 1.368 | 1.399* | | | cyf. | |
| Yn y CS | 1.300 | 1.354* | | | 1.090 | 1.070 |
| Cyfnod cyflwyno olaf | | | | | | |
| Tu allan i’r CS | cyf. | | cyf. | | | |
| Yn y CS | 0.806** | 0.773** | 0.807** | 0.774** | | |

*Ffynhonnell: CGD: 2007/08-2011/12* (* p<0.10, ** p<0.05)

3.17. Gan fod technegau modelu gwahanol wedi’u defnyddio, mae’r canlyniadau am absenoldeb parhaus ac absenoldeb heb ganiatâd wedi’u dehongli’n wahanol i’r rhai uchod. Mae’r cysyniad o ‘debygolrwydd cymharol’ yn hollbwysig wrth ddehongli’r canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adran hon. Cyn cyflwyno’r canlyniadau hyn, rydym yn disgrifio’r hyn a olygwn o ran ‘risg’. Yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf, cofnodwyd bod tua 51% o ddisgyblion Blwyddyn 1 oedd yn cael hawlio PYDd, wedi bod yn absennol heb ganiatâd. O gymharu â hynny, roedd 26% o’r disgyblion nad oeddent yn cael hawlio PYDd wedi bod yn absennol heb ganiatâd. Felly, drwy gymharu cyfraddau absenoldeb heb ganiatâd, gwelwn fod disgyblion sy’n cael PYDd yn fwy tebygol o fod yn absennol heb ganiatâd. Ffordd arall o fynegi’r risg uwch hwn o fod yn absennol heb ganiatâd yw dweud bod y rhai sy’n cael hawlio PYDd tua dwywaith mor debygol o fod yn absennol heb ganiatâd o gymharu â’r rhai nad ydynt yn cael hawlio PYDd (51% wedi’i rannu â 26%). Dyma sut mae’r amcangyfrifon o debygolrwydd cymharol ar sail y dadansoddiad atchwel yn cael eu cyflwyno yn Nhablau 5 a 6.

3.18. Mae Modelau 7 ac 8 yn awgrymu bod absenoldeb parhaus wedi lleihau tua 20% ymhlith disgyblion Blynyddoedd 1 a 2 mewn ysgolion Dechrau’n

Gynnar a'r cyfnod cyflwyno olaf. Yn ôl dadansoddiad a gynhaliwyd ar wahân am y math hwn o ysgolion, awgrymir bod y gwymp fwyaf yn digwydd mewn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf (Modelau 9 a 10), sef 28%. Ar yr olwg gyntaf, mae'r gostyngiad a amcangyfrifir yn ymddangos yn rhy fawr. Fodd bynnag, yn ôl amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru am absenoldeb parhaus mewn ysgolion cynradd, gostyngodd lefelau absenoldeb parhaus i 2.06% yn 2011/12 o gymharu â 3.3.% yn 2010/11. Er mai gostyngiad o 0.7 pwynt canran yw hyn, mae'n cyfateb i gwymp cyfatebol o 21% mewn cyfraddau absenoldeb parhaus. Felly, mae'r amcangyfrifon sy'n deillio o'r modelau ystadegol yn cyd-fynd â'r amcangyfrifon a gyhoeddwyd.

3.19. Ar draws y sampl lawn o blant Blynyddoedd 1 a 2, mae nifer yr absenoldebau heb ganiatâd wedi gostwng yn ôl pob tebyg ymhlith disgyblion y cyfnod cyflwyno olaf a ddilynodd y Cyfnod Sylfaen (Yn y CS) o gymharu â phlant yn yr ysgolion hyn nad oeddent yn y Cyfnod Sylfaen (Tu allan i'r CS). Mae'r canfyddiad hwn yn berthnasol i ddisgyblion Blwyddyn 1 (Model 13) a Blwyddyn 2 (Model 14). Ar ôl rheoli nodweddion disgyblion ac ysgolion, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen tua 20% yn llai tebygol o fod yn absennol heb ganiatad yn gyffredinol.

3.20. Mae'r dadansoddiad yn Nhabl 6 yn cadarnhau lefelau uwch o absenoldebau heb ganiatad mewn ysgolion peilot a Dechrau'n Gynnar hefyd ar ôl rheoli nodweddion y disgyblion. Ar ben hynny, ni cheir unrhyw dystiolaeth o ostyngiad mewn lefelau absenoldeb heb ganiatad ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar. Yn wir, mae'r dadansoddiad sy'n seiliedig ar ddata o ysgolion Dechrau'n Gynnar yn unig yn awgrymu y gallai lefelau absenoldeb heb ganiatad fod wedi cynyddu. Fodd bynnag, nodir mai nifer cymharol fychain o ysgolion sydd o dan sylw ac nad yw'r cynnydd a amcangyfrifir mewn lefelau absenoldeb heb ganiatâd yn ystadegol arwyddocaol.

## 4. Cymharu canlyniadau Cyfnod Allweddol 1 a’r Cyfnod Sylfaen

4.1. Ochr yn ochr â chyflwyno’r Cyfnod Sylfaen, cafodd dulliau asesu disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn (saith oed) eu newid. Roedd y rhai oedd yn arfer cael eu hasesu yn unol â CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu graddio mewn un o chwe lefel, gan gynnwys gweithio tuag at Lefel 1, Lefel 1 a hyd at Lefel 5. Rhoddwyd y graddau hyn ar gyfer mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg a Chymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion a gyflawnodd Lefelau 4 neu 5 erbyn diwedd Blwyddyn 2. Cyflawnodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Lefel 2 ym mhob un o’r pynciau hyn, sef y lefel cyrhaeddiad a ddisgwylir gan ddisgyblion Blwyddyn 2.

4.2. Mewn Asesiadau ar Ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, fodd bynnag, mae disgyblion yn cael ei graddio yn ôl un o saith lefel (gan gynnwys gweithio tuag at Lefel 1, Lefel 1 a hyd at Lefel 6) ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (DPChLlADd), Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh) a Datblygiad Mathemategol (DM). Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, asesir disgyblion yn erbyn maes dysgu Datblygiad Iaith Gymraeg (DIG) hefyd. Yn gychwynnol, dim ond mewn dau faes dysgu, sef ILlCh a DM, yr oedd hi’n statudol ofynnol i ysgolion baratoi ac adrodd asesiadau Cyfnod Sylfaen - a’r rhain sy’n cael y prif sylw yn y dadansoddiad hwn. Yn y Cyfnod Sylfaen, disgwylir i’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 gyflawni Lefel 5.

4.3. Oherwydd bod data ar gael ar gyfer blynyddoedd olynol cyn, ac ar ôl, cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen, mae’n bosibl olrhain lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion Peilot, Dechrau’n Gynnar a’r cyfnod cyflwyno olaf. Rydym yn canolbwyntio ar gyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig yn ystod CA1 a’r Cyfnod Sylfaen. Dim ond ysgolion cyfrwng Saesneg oedd o dan sylw yn y dadansoddiad oherwydd y samplau cymharol fychain mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ymhlith yr ysgolion peilot.


4.4. Yn ein hadroddiad blaenorol (Davies *et al.* 2013), awgrymwyd bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi creu bwlch yn y data asesu mewn ysgolion peilot a Dechrau'n Gynnar. Yn sgìl hynny, roedd yn anodd asesu a oedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi arwain at ganlyniadau gwell ar ddiwedd Blwyddyn 2 yn yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, gan fod canlyniadau carfan gyntaf y Cyfnod Sylfaen wedi'u cynnwys yn y rhan fwyaf o ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf erbyn hyn, gwelwn fod cryn gysondeb yn y lefelau cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan ddisgyblion cyn, ac ar ôl, cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Gwelwn fod cyfran debyg o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen (Lefel 5) o gymharu â'r rhai a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol (Lefel 2) ar draws amrywiaeth o bynciau. Gallai hyn awgrymu bod anhawster penodol gan athrawon mewn ysgolion peilot a Dechrau'n Gynnar wrth iddynt symud o asesiadau Cyfnod Allweddol 1 i ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, gall awgrymu hefyd nad yw ysgolion y cyfnod cyflwyno mwy diweddar yn defnyddio amrywiaeth lawn y lefelau a ddarperir gan ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a welwyd yn cael eu defnyddio mewn ysgolion peilot a Dechrau'n Gynnar yn wreiddiol.

4.5. Mae Ffigurau 3 a 4 yn dangos bod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi cyfrannu at fwlch mewn lefelau cyrhaeddiad. Gwelir fod cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion hyn yn gysylltiedig â chwymp o 15 pwynt canran yn y gyfran oedd yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn mathemateg (o 85% i 70%) a chwymp o 10 pwynt canran yn y gyfran oedd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg. Nid yw bylchau o'r fath mor amlwg mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar, ond mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod yn gysylltiedig â gostyngiad yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig.

4.6. Erbyn i'r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf, mae'n ymddangos bod lefelau cyrhaeddiad y disgyblion yn cyd-fynd yn llawer agosach â'r hyn a gyflawnwyd yn flaenorol yn CA1. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos nad ydym yn gallu amlygu


unrhyw welliant o bwys mewn canlyniadau mathemateg a Saesneg (mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) ar ddiwedd Blwyddyn 2 ar ôl cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, ni ellir cynnal cymhariaeth fanylach o ganlyniadau ar ddiwedd Blwyddyn 2 o hyd am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae’r bwlch mewn lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion peilot a Dechrau’n Gynnar yn ein hatgoffa y gallai cymharu lefelau cyrhaeddiad blaenorol a dilynol fod yn dalcen caled gan fod lefelau cyrhaeddiad yn cael eu cofnodi’n anghyson ers cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen. Yn ail, byddai unrhyw gymhariaeth ar gyfer ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf yn dibynnu ar ddefnyddio’r flwyddyn gyntaf o ddata am ganlyniadau ar ôl cyflwyno’r Cyfnod Sylfaen.

**Ffigur 3: Dilyniant mewn Canlyniadau CA1/CS: Mathemateg**




*Ffynhonnell: CGD: 2004/05-2011/12*

**Ffigur 4: Dilyniant mewn Canlyniadau CA1/CS: Saesneg**




*Ffynhonnell: CGD: 2004/05-2011/12*

## 5. Canlyniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 2

5.1. Mae sawl mantais yn gysylltiedig ag ystyried perfformiad cymharol disgyblion y CS yng Nghyfnod Allweddol 2 (CA2). Yn gyntaf, asesir *pob* plentyn mewn modd cyson [7], ni waeth a gawsant eu hasesu drwy'r Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 2 ai peidio. Felly, nid yw newidiadau mewn dulliau asesu yn amharu ar gymariaethau. Y tu hwnt i'r materion mesur, os yw'n cymryd amser hwy i'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen ddod i'r amlwg (h.y. pan mae'r plant yn hŷn), hwyrach mai dim ond drwy astudio data CA2 y gellir cofnodi'r effeithiau hyn. Yr anfantais sy'n gysylltiedig ag astudio canlyniadau CA2 yw'r ffaith mai tair carfan yn unig o ddisgyblion y CS o ysgolion peilot sydd wedi'u hasesu yn CA2. Nid oes unrhyw blant o ysgolion Dechrau'n Gynnar neu'r cyfnod cyflwyno olaf wedi'u hasesu yn CA2 eto (gweler Tabl 7). Fodd bynnag, mae'r ailadroddiad CGD hwn sy'n defnyddio data 2011/12 yn rhoi 669 yn rhagor o ddisgyblion o ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen sydd wedi cwblhau CA2 erbyn hyn (gan bron dreblu maint y sampl berthnasol i'w chymharu).

5.2. Mae Tablau 8, 9 a 10 yn rhoi gwybodaeth am lefelau cyrhaeddiad CA2 disgyblion o wahanol ysgolion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys asesiadau am Gymraeg oherwydd maint cymharol fychan y samplau yn y pwnc hwn.

5.3. Mae'r tablau hyn yn cymharu canlyniadau gwahanol grwpiau o ddisgyblion hefyd, yn ôl cenedl, ethnigrwydd, statws prydau ysgol am ddim, ac anghenion addysgol arbennig. Yn bennaf, mae diddordeb gennym mewn cymharu disgyblion a aeth i ysgolion peilot cyn i'r Cyfnod Sylfaen gael ei gyflwyno (Tu allan i'r CS) ac ar ôl ei gyflwyno (Yn y CS). Rydym yn cynnwys lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion eraill hefyd i roi cyd-destun, er nad oes neb ohonynt wedi cael profiad o'r Cyfnod Sylfaen.

[7] O leiaf yng nghyd-destun cysoni o fewn ac ar draws asesiadau athrawon.

5.4. Mae'r data'n cyfeirio at gyfran y disgyblion a gyflawnodd Lefel 4 neu uwch. Lefel 4 yw'r lefel cyrhaeddiad a ddisgwylir gan ddisgyblion Blwyddyn 6.

5.5. Mae Ffigur 5 wedyn yn crynhoi lefelau cyrhaeddiad CA2 pob disgybl o'r ysgolion peilot mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

**Tabl 7: Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 sydd ar gael ar gyfer Disgyblion Cyfnod Sylfaen, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cyfnod cyflwyno olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Tu allan i'r CS | |
| 2011/12 | 669 | 0 | 980 | 32,873 | 34,522 |
| 2010/11 | 350 | 265 | 971 | 31,926 | 33,512 |
| 2009/10 | 52 | 597 | 970 | 30,706 | 32,325 |
| 2008/09 | 0 | 629 | 947 | 30,270 | 31,846 |
| **Holl ddisgyblion** | **1,071** | **1,491** | **3,868** | **125,775** | **132,205** |

*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

**Tabl 8: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) mewn Saesneg CA2, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cyfnod cyflwyno olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Tu allan i'r CS | |
| **Cenedl** | | | | | |
| Gwryw | 70.8 | 75.6 | 68.5 | 79.2 | 78.8 |
| Benyw | 80.0 | 88.6 | 80.9 | 88.5 | 88.3 |
| *Gwahaniaeth* | *-9.2* | *-13.1* | *-12.4* | *-9.4* | *-9.5* |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Arall | 83.5 | 83.3 | 76.8 | 83.2 | 83.0 |
| Gwyn | 74.3 | 81.6 | 74.3 | 83.8 | 83.4 |
| *Gwahaniaeth* | *9.1* | *1.8* | *2.6* | *-0.6* | *-0.5* |
| **Statws PYDd** | | | | | |
| Nid PYDd | 78.5 | 84.4 | 81.4 | 87.2 | 87.0 |
| PYDd | 65.2 | 72.1 | 63.2 | 68.2 | 67.9 |
| *Gwahaniaeth* | *13.3* | *12.4* | *18.2* | *19.0* | *19.1* |
| **Statws AAA** | | | | | |
| Nac oes | 85.5 | 94.1 | 88.8 | 93.4 | 93.2 |
| Oes | 48.9 | 53.8 | 48.4 | 54.6 | 54.3 |
| *Gwahaniaeth* | *36.6* | *40.3* | *40.4* | *38.7* | *38.9* |
| **Holl ddisgyblion** | **75.4** | **81.8** | **74.5** | **83.7** | **83.4** |

*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

**Tabl 9: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) mewn Mathemateg CA2, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cyfnod cyflwyno olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Tu allan i'r CS | |
| **Cenedl** | | | | | |
| Gwryw | 78.5 | 82.7 | 75.9 | 83.1 | 82.9 |
| Benyw | 79.2 | 84.8 | 79.6 | 86.9 | 86.6 |
| *Gwahaniaeth* | *-0.7* | *-2.1* | *-3.7* | *-3.7* | *-3.7* |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Arall | 84.3 | 83.8 | 82.0 | 83.9 | 83.8 |
| Gwyn | 78.1 | 83.6 | 77.2 | 85.0 | 84.8 |
| *Gwahaniaeth* | *6.2* | *0.2* | *4.9* | *-1.2* | *-0.9* |
| **Statws PYDd** | | | | | |
| Nid PYDd | 82.5 | 86.8 | 83.8 | 88.1 | 88.0 |
| PYDd | 67.0 | 72.1 | 67.5 | 70.8 | 70.6 |
| *Gwahaniaeth* | *15.6* | *14.7* | *16.3* | *17.3* | *17.3* |
| **Statws AAA** | | | | | |
| Nac oes | 89.0 | 93.8 | 90.9 | 93.7 | 93.6 |
| Oes | 52.2 | 60.6 | 53.5 | 58.6 | 58.4 |
| *Gwahaniaeth* | *36.8* | *33.2* | *37.4* | *35.1* | *35.2* |
| **Holl ddisgyblion** | **78.8** | **83.7** | **77.7** | **85.0** | **84.7** |


*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

**Tabl 10: Canran y disgyblion sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) mewn Gwyddoniaeth CA2, fesul cyfnod cyflwyno**

| | Peilot | | Dechrau'n Gynnar | Cyfnod cyflwyno olaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tu allan i'r CS | Yn y CS | Tu allan i'r CS | Tu allan i'r CS | |
| **Cenedl** | | | | | |
| Gwryw | 81.3 | 82.5 | 79.3 | 85.7 | 85.5 |
| Benyw | 82.6 | 89.7 | 83.3 | 90.0 | 89.8 |
| *Gwahaniaeth* | *-1.3* | *-7.1* | *-4.0* | *-4.3* | *-4.3* |
| **Ethnigrwydd** | | | | | |
| Arall | 89.6 | 84.8 | 87.8 | 86.9 | 86.9 |
| Gwyn | 81.0 | 86.1 | 80.4 | 87.9 | 87.6 |
| *Gwahaniaeth* | *8.6* | *-1.3* | *7.3* | *-1.0* | *-0.7* |
| **Statws PYDd** | | | | | |
| Nid PYDd | 85.7 | 88.0 | 86.9 | 90.8 | 90.6 |
| PYDd | 70.0 | 78.5 | 71.8 | 74.6 | 74.4 |
| *Gwahaniaeth* | *15.7* | *9.5* | *15.1* | *16.2* | *16.2* |
| **Statws AAA** | | | | | |
| Nac oes | 90.6 | 95.9 | 93.4 | 95.6 | 95.5 |
| Oes | 59.2 | 63.4 | 58.9 | 64.4 | 64.2 |
| *Gwahaniaeth* | *31.5* | *32.5* | *34.5* | *31.1* | *31.3* |
| **Holl ddisgyblion** | **82.0** | **85.9** | **81.2** | **87.8** | **87.6** |

*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

**Ffigur 5: Canran y disgyblion o ysgolion peilot sy'n cyflawni Lefel 4 (neu uwch) yng Nghyfnod Allweddol 2**




*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

5.6. O'r cychwyn cyntaf, mae'n bwysig nodi bod cyrhaeddiad yn CA2 ymhlith plant oedd yn mynychu'r ysgolion peilot yn is ar gyfartaledd na'r rhai a arsylwyd ymhlith y boblogaeth ehangach o ddisgyblion CA2 yng Nghymru (gweler Davies *et al.* 2013 hefyd). Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a wyddwn am nodweddion plant sydd o dan anfantais gymharol sy'n mynychu'r ysgolion hyn, gan gynnwys niferoedd uwch yn gallu hawlio PYDd a chyfran uwch a asesir fel rhai sydd ag AAA yn CA1.

5.7. Fodd bynnag, fel mae Ffigur 5 yn ei ddangos yn glir, mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion peilot yn CA2 a'r rhai a aseswyd drwy'r Cyfnod Sylfaen, yn uwch na lefelau'r disgyblion a aseswyd drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a nodwyd yn flaenorol, ond bod y sampl fwy y tro hwn, er ei bod yn parhau'n gymharol fach.

5.8. Un o'r problemau gyda chymariaethau 'syml' fel hyn o lefelau cyrhaeddiad cyn, ac ar ôl, cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yw'r posibilrwydd y

gallent adlewyrchu lefelau cyrhaeddiad sy'n gwella'n gyffredinol yn CA2 a dim arall. Er mwyn ystyried hyn, defnyddir technegau cymathu ystadegol i gymathu disgyblion o ysgolion peilot â disgyblion tebyg o ysgolion tebyg yn y boblogaeth ehangach. Gellir wedyn cymharu newidiadau mewn lefelau cyrhaeddiad cymharol yn CA2 ymhlith disgyblion CA1 a'r Cyfnod Sylfaen. Felly, mae diddordeb gennym yn y modd y mae gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad oedd yn bodoli eisoes yn newid ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

5.9. Mae dwy ran i'r dadansoddiad. Yn gyntaf, ceir cymhariaeth 'sylfaen' o gyrhaeddiad CA2 drwy gymharu canlyniadau disgyblion a aeth i ysgolion peilot ac na chawsant eu hasesu gan y Cyfnod Sylfaen, â disgyblion o ysgolion y cyfnod cyflwyno terfynol. Mae'r dadansoddiad sylfaen yn ceisio amlygu unrhyw wahaniaethau mewn lefelau cyrhaeddiad ymhlith y disgyblion hyn cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a allai fod oherwydd nodweddion ysgol neu ddisgybl na ellir eu gweld na'u cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol. Dyma'r gwahaniaethau pwynt canran amcangyfrifol a gyflwynir yn Nhabl 11 ar gyfer disgyblion cyn y Cyfnod Sylfaen.

5.10. Ailadroddir y dadansoddiad Cymathu Sgoriau Tebyg (CST) ar gyfer disgyblion a aeth i ysgolion peilot ac a aseswyd yn y Cyfnod Sylfaen (h.y. y rhai a gymerodd ran lawn yn y Cyfnod Sylfaen). Unwaith eto, cymerir eu lefelau cyrhaeddiad â sampl wedi'i chymathu o ddisgyblion yn ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf ar gyfer y blynyddoedd cyfatebol. Cyflwynir y gwahaniaethau pwynt canran amcangyfrifol yn Nhabl 11. Mae'r dadansoddiad hwn yn wahanol i'r un a gyflwynwyd mewn adroddiad cynharach (Davies et al. 2013) gan ei fod yn cynnwys carfan ychwanegol o ddisgyblion sydd wedi astudio'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion peilot.

5.11. Gwelwn fod y gwahaniaethau pwynt canran amcangyfrifol yn fwy ar gyfer disgyblion ar ôl y Cyfnod Sylfaen nag oeddent ar gyfer y disgyblion cyn y Cyfnod Sylfaen yn y tri phwnc. Mae hyn yn cadarnhau'r canfyddiadau blaenorol yn Davies et al. (2013) sy'n awgrymu y bu gwelliant cymharol

yng nghyrhaeddiad y disgyblion ar ddiwedd CA2 a gymerodd ran yn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion peilot


**Tabl 11: Dadansoddiad PSM o effaith y Cyfnod Sylfaen ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 2**

| | % Pwynt Gwahaniaeth Amcangyfrifol yn y Grŵp Cymathu a Reolwyd | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caliper | Dim | 0.001 | 0.0001 | Cyfartaledd |
| **Saesneg** | | | | |
| Cyn y Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Gyda'r ailosodiad | 0.03 | 0.03 | 0.02 | 0.02 |
| n | 931 | 923 | 902 | |
| Ar ôl y Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Gyda'r ailosodiad | 0.10 | 0.10 | 0.11 | 0.08 |
| n | 1,400 | 1,384 | 1,314 | |
| **Mathemateg** | | | | |
| Cyn y Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Gyda'r ailosodiad | 0.08 | 0.08 | 0.07 | 0.06 |
| n | 931 | 923 | 902 | |
| Ar ôl y Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Gyda'r ailosodiad | 0.08 | 0.08 | 0.08 | 0.07 |
| n | 1,400 | 1,384 | 1,314 | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Cyn y Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Gyda'r ailosodiad | 0.03 | 0.03 | 0.02 | 0.02 |
| n | 931 | 923 | 902 | |
| Ar ôl y Cyfnod Sylfaen | | | | |
| Gyda'r ailosodiad | 0.06 | 0.06 | 0.07 | 0.05 |
| n | 1,400 | 1,384 | 1,314 | |

*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

5.12. Mae Ffigur 6 yn dangos y gwahaniaeth cymharol yng nghyflawniad disgyblion y Cyfnod Sylfaen o gymharu â disgyblion CA1 a gymhathwyd. Cyflwynir y rhain ochr yn ochr â gwahaniaethau pwynt canran 'crai' rhwng cyrhaeddiad CA2 pob disgybl y Cyfnod Sylfaen a chyrhaeddiad CA2 pob disgybl sydd heb fod yn y Cyfnod Sylfaen dros amser (o Ffigur 5).

**Ffigur 6: Cyrhaeddiad cymharol disgyblion o ysgolion peilot yng Nghyfnod Allweddol 2: Cymariaethau gwahaniaethol crai a pharau wedi'u cymathu o ganrannau a gyflawnodd Lefel 4 (neu uwch)**




*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

5.13. Mae Ffigur 6 yn dangos bod gwelliannau mewn cyrhaeddiad cymharol yn CA2 mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi bod yn gysylltiedig â chyflwyno'r CS mewn ysgolion peilot. Mae hyn ar sail cymariaethau a gymhathwyd â disgyblion mewn ysgolion lle na chafodd y CS ei gyflwyno. Yn Saesneg, amcangyfrifwn y cododd cyfran y disgyblion a gyflawnodd Lefel 4 neu uwch yn CA2 o leiaf 5.5 pwynt canran ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn ogystal ag o leiaf 3.5 pwynt canran mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos bod y gwelliant yn ôl pob golwg mewn cyflawniad mathemateg yn CA2, a ddangosir yn Ffigur 6, bron yn ddibwys ar ôl rheoli am welliannau mewn cyflawniad mathemateg yn CA2 yn gyffredinol - amcangyfrifwn fod 0.4 pwynt canran yn rhagor o ddisgyblion wedi cyflawni Lefel 4 neu uwch mewn mathemateg ar ôl cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen.

# 6 Anghydraddoldeb mewn Canlyniadau

6.1. Roedd lleihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau cymdeithasol ac addysg yn nodwedd bwysig o'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, dangosodd ein dadansoddiad cychwynnol nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, hyd yma, yn gysylltiedig â newid yn y gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng is-grwpiau o'r boblogaeth, fel y rhai a ddiffinnir gan genedl, ethnigrwydd a chefndir cymdeithasol-economaidd (Davies *et al.* 2013).


6.2. Mae'r dadansoddiad diweddaraf hwn sy'n defnyddio data CGD o 2011/12, yn parhau i ddangos bod anghydraddoldeb o hyd o ran absenoldeb a chyrhaeddiad. Mae'r grwpiau hynny sy'n dangos yr anfanteision mwyaf o ran canlyniadau addysgol, yn parhau i fod y rhai sy'n cael hawlio Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) ac sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

6.3. Er enghraifft, yn yr achos hwn rydym yn ystyried anghydraddoldeb o ran absenoldeb ac anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad yn CA2.

6.4. Mae Ffigur 7 yn dangos y gwahaniaethau mewn absenoldeb parhaus ymhlith disgyblion mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar ac ysgolion y cyfnod cyflwyno olaf. Yn y naill gyfres o ysgolion fel y llall, mae gwahaniaethau yn y lefelau absenoldeb cymharol rhwng disgyblion sy'n cael hawlio PYDd a phob disgybl arall yn parhau'r un fath cyn, ac ar ôl, cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Fel yr awgrymwyd uchod, mae absenoldeb parhaus ymhlith disgyblion PYDd mewn ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi gwaethygu yn ôl pob golwg o gymharu â lefelau absenoldeb parhaus ymhlith disgyblion eraill yn yr ysgolion hyn.

6.5. Mae'r patrymau anghydraddoldeb hyn yn parhau'r un fath hyd yn oed ar ôl ystyried nodweddion eraill disgyblion.

**Ffigur 7: Anghydraddoldeb mewn absenoldeb parhaus (Blynyddoedd 1 a 2)**




*Ffynhonnell: CGD: 2007/08-2011/12*

6.6. Mae Ffigur 8 yn dangos effaith y Cyfnod Sylfaen yn ôl pob golwg ar anghydraddoldeb yn Saesneg Cyfnod Allweddol 2 ymhlith disgyblion sy'n mynychu ysgolion peilot y Cyfnod Sylfaen[8]. Mae Ffigurau 9 a 10 yn cyflwyno'r un canlyniadau ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn yr achos hwn, rydym yn cyflwyno amcangyfrifon o ddadansoddiadau aml-amrywedd o gyflawniad ym mhob pwnc sy'n bodoli yn CA2 drwy gymharu gwahanol is-grwpiau sy'n mynychu ysgolion peilot. Dylid nodi bod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar nifer cymharol fychan fyfyrwyr o hyd: tua 1,000 o ddisgyblion cyn y Cyfnod Sylfaen a 1,500 o ddisgyblion ar ôl y Cyfnod Sylfaen. Felly, gall y samplau cymharol fychain sy'n gysylltiedig â rhai is-grwpiau o'r boblogaeth gyfrannu at rywfaint o ansefydlogrwydd ym maint y gwahaniaethau, yn enwedig ymhlith disgyblion nad ydynt yn wyn.

6.7. Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y patrymau anghydraddoldeb oedd yn bodoli cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, yn

[8] Dim ond anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad CA2 y gallwn ei astudio yn yr ysgolion hyn gan nad yw disgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion eraill wedi cyrraedd diwedd CA2 eto.

tueddu i barhau ar ôl ei gyflwyno. Fodd bynnag, gallwn weld rhai newidiadau bychain, ond pwysig o bosibl, mewn cyflawniad yn CA2. Er enghraifft, gwelwn fod bylchau anghydraddoldeb mewn Saesneg CA2 (o blaid merched) (Ffigur 8) a mathemateg CA2 (o blaid bechgyn) (Ffigur 9) yn ehangu ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, mewn gwyddoniaeth CA2, nid yn unig y mae'r 'bwlch' rhwng cyflawniad bechgyn a merched wedi cau rhyw fymryn, ond mae'n edrych fel bod merched ar y blaen erbyn hyn (wedi i'r bechgyn fod ar y blaen yn flaenorol yn ôl pob golwg) (Ffigur 10).


6.8. Er mai nifer isel iawn o ddisgyblion nad ydynt yn wyn sydd yn y dadansoddiad hwn, mae'r canlyniadau'n awgrymu bod cyflawniad cymharol isel y disgyblion gwyn o gymharu â'r disgyblion eraill cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi gwella, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth CA2.

6.9. Mae'r darlun o ran anghydraddoldeb mewn cyflawniad CA2 rhwng disgyblion sy'n cael hawlio Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) a'r gweddill yn fwy cymysg. Mewn Saesneg yn CA2, mae'r 'bwlch' mewn cyflawniad yn parhau fwy neu lai'r un fath. Mewn mathemateg CA2, mae'n edrych fel bod y 'bwlch' wedi gwaethygu. Fodd bynnag, mewn gwyddoniaeth yn CA2, mae'r anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad yr holl ddisgyblion, p'un a ydynt yn cael hawlio PYDd ai peidio, wedi haneru yn ôl pob golwg.

6.10. Yn anffodus, ar sail y dadansoddiad hwn, mae'r anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad disgyblion yn CA2, p'un a ydynt ag AAA ai peidio, yn parhau'n sylweddol, er bod nifer y disgyblion AAA yn y dadansoddiad yn isel.


6.11. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi tystiolaeth y gallai'r Cyfnod Sylfaen fod yn cael effaith fach ar rai anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysgol. Fodd bynnag, nid os mo'r cysondeb nac effaith ddigon mawr i awgrymu y bydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth o bwys o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, o leiaf yn y dyfodol agos.

**Ffigur 8: Anghydraddoldeb mewn Saesneg Cyfnod Allweddol 2 (Ysgolion Peilot)**





*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

**Ffigur 9: Anghydraddoldeb mewn mathemateg Cyfnod Allweddol 2 (Ysgolion Peilot)**




*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

**Ffigur 10: Anghydraddoldeb mewn gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2 (Ysgolion Peilot)**




*Ffynhonnell: CGD: 2008/09-2011/12*

## 7. Casgliadau

7.1. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar adroddiad blaenorol (Davies *et al.* 2013) i gyflwyno canlyniadau diweddaraf dadansoddiad sydd wedi ceisio cymharu canlyniadau plant sydd wedi dilyn y Cyfnod Sylfaen â chanlyniadau plant a ddilynodd CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn flaenorol. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau am nifer o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys

i. cyfraddau a natur absenoldeb;
ii. asesiadau athrawon a baratowyd ym Mlwyddyn 2 (h.y. asesiadau a gynhelir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 neu'r Cyfnod Sylfaen); ac
iii. asesiadau athrawon a baratowyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (h.y. ym Mlwyddyn 6).

7.2. O'r cychwyn cyntaf, mae'n bwysig pwysleisio cyfyngiadau'r dadansoddiad. Yn gyntaf, nod y Cyfnod Sylfaen yw arwain at newidiadau mewn amrywiaeth eang o ganlyniadau na ellir eu cofnodi mewn dulliau 'sylfaenol' o fesur canlyniadau drwy asesiadau athrawon. Yn ail, er bod yr adroddiad wedi ceisio manteisio ar y modd dilyniannol y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen er mwyn gallu cymharu'r un elfennau, mae cynnwys a threfn y dadansoddiad wedi gorfod dibynnu ar ba ddata sydd ar gael. Mae'r data am absenoldeb ers 2007/08, y newidiadau o ran sut y cofnodir cyrhaeddiad ym Mlwyddyn 2 (a gyflwynwyd yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen) a'r amser prin ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, i gyd wedi dylanwadu ar gwmpas y dadansoddiad.

7.3. O ystyried y cyfyngiadau hyn, mae sawl canfyddiad pwysig sydd naill ai'n tueddu i ategu canfyddiadau'r adroddiad blaenorol, neu'n amlygu effaith gadarnhaol y Cyfnod Sylfaen yn ôl pob golwg.

7.4. **Yn gyntaf, mae lefelau absenoldeb wedi gostwng yn ôl pob tebyg, yn enwedig o ran absenoldeb parhaus** - h.y. lle mae disgyblion yn absennol am dros 20% o'r sesiynau hanner diwrnod trwy gydol y flwyddyn academaidd. Wrth gwrs, gallai ymyriadau eraill oedd yn mynd

i'r afael ag absenoldeb dros yr un cyfnod fod yn rhannol gyfrifol am y gwelliannau hyn. Fodd bynnag, drwy ein dadansoddiad o'r CGD, rydym wedi ceisio defnyddio amrywiaeth o ddulliau dadansoddol, ar sail dull sy'n defnyddio'r ffordd ddilyniannol yn bennaf, i geisio amlygu effaith bosibl y Cyfnod Sylfaen heb gysylltiad â strategaethau ac ymyriadau cenedlaethol eraill a allai fod wedi'u cynnal ar yr un pryd.

7.5. **Yn ail, mae perfformiad cymharol CA2 carfanau cynnar y Cyfnod Sylfaen o ysgolion peilot wedi gwella yn ôl pob golwg**. Ar hyn o bryd, ni all y canlyniadau fod yn rhai cwbl derfynol ac mae'r technegau amcangyfrif a ddefnyddiwyd yn mynd i effeithio arnynt. Ar ben hynny, ni ellir cyffredinoli canlyniadau sy'n seiliedig ar y carfanau cynnar hyn ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth gynnar sy'n awgrymu bod perfformiad disgyblion y Cyfnod Sylfaen mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gwella. Mae'n bosibl bod y pwyslais ychwanegol ar addysgu ac asesu ar sail chwarae yn rhoi hwb i lefelau cyrhaeddiad uwch yn CA2.

7.6. **Yn drydydd, nid yw anghydraddoldeb mewn canlyniadau wedi gostwng ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.** Mae'r dadansoddiad yn dangos nad yw cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau o bwys hyd yma yng nghanlyniadau gwahanol is-grwpiau, fel y rhai sydd wedi'u diffinio yn ôl cenedl, ethnigrwydd a chefndir cymdeithasol-economaidd. Mae anghydraddoldeb i'w weld o hyd o ran absenoldeb a chyrhaeddiad. Mae'r grwpiau sy'n cael hawlio prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig ymhlith y grwpiau sy'n dangos yr anfanteision mwyaf o ran canlyniadau addysgol. Er bod rhai enghreifftiau unigol o lai o anghydraddoldeb addysgol ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, nid yw cyfradd na maint yr enghreifftiau hyn yn awgrymu bod y Cyfnod Sylfaen, hyd yma o leiaf, wedi gallu mynd i'r afael â, neu leddfu, achosion sylfaenol anghydraddoldeb mewn addysg.

7.7. Mae'r casgliad olaf hwn yn bwysig yng nghyd-destun y canfyddiadau eraill yn y gwerthusiad (gweler Waldron *et al.* 2014a). Er enghraifft, yn ôl ymarferwyr yng Nghymru, gan gynnwys penaethiaid, mae'r mwyafrif yn credu bod y Cyfnod Sylfaen o les i blant ac i ddysgu, yn enwedig i rai grwpiau pwysig o ddysgwyr fel bechgyn a phlant ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad o'r CGD hyd yma'n tueddu i gadarnhau'r safbwyntiau hyn.

7.8. Gallai hyn awgrymu nad yw 'manteision' canfyddedig y Cyfnod Sylfaen yn ddigon amlwg eto o ran cyflwyno newidiadau mewn cyflawniad addysgol. Gallai hefyd adlewyrchu'r ffaith fod unrhyw fanteision a gynigir gan y Cyfnod Sylfaen yn ehangach na'r dulliau cyfyng a ddefnyddir yma i fesur cyflawniad addysgol.

7.9. Yn ogystal, gallai amlygu rhagfarnau posibl neu safbwyntiau hynod oddrychol ymarferwyr am y Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd yn fwy na phosibl bod unrhyw effaith gan y Cyfnod Sylfaen ar ganlyniadau addysgol yn cael ei gwanhau gan yr amrywiaethau a welwyd o ran i ba raddau mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i gyflwyno mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth (Waldron *et al.* 2014b).

7.10. Hefyd, derbyniwyd yn gyffredinol fod ymyrraeth wedi ei ffocysu a'i dargedu yn fwy addas ar gyfer taclo anghydraddoldebau addysgol i gymharu ag ymyrraeth gyffredinol (Kerr a West, 2010).

7.11. Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr ail ddadansoddiad sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol CGD. Cyn i'r gwerthusiad tair blynedd ddod i ben, bydd modd cynnwys blwyddyn ychwanegol o ddata CGD data ar gyfer 2012/13 mewn dadansoddiad pellach. Fodd bynnag, yn ôl ein hadolygiad o ysgolion a disgyblion y Cyfnod Sylfaen, yr unig wir fantais o gynnwys y flwyddyn ychwanegol hon o ddata fyddai gallu cynnwys tua 48 o ddisgyblion sydd wedi cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgol Dechrau'n Gynnar. O ystyried pa mor anwastad a bach yw

dosbarthiad y disgyblion hyn ar draws ysgolion Dechrau'n Gynnar, mae'n anochel y bydd eu cynnwys mewn dadansoddiad o ganlyniadau CA2 yn peri anawsterau. Gan mai'r cyfan y mae'r ail-ddadansoddiad hwn, gyda data 2011/12, wedi tueddu i'w wneud yw cadarnhau canfyddiadau o ddadansoddiad cychwynnol hyd, a chan gynnwys data 2012/13 nid ydym yn disgwyl y byddai cynnwys data 2012/13 yn newid ein canfyddiadau.

7.12. Yn hytrach, bydd dadansoddiad pellach o ddata CGD yn canolbwyntio ar gysylltiadau y gallwn eu hamlygu rhwng canlyniadau addysgol (fel y soniwyd amdanynt yma ac yn Davies *et al.* 2013) gan gynnwys elfennau eraill o'r gwerthusiad. Yn benodol, byddwn yn awyddus i edrych ar effaith gymharol y Cyfnod Sylfaen ar ganlyniadau yn ôl sut gwelir y Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith. Gallai hyn fod yn hanfodol er mwyn edrych yn benodol ar effaith Cyfnod Sylfaen *pe byddai'n* cael ei roi ar waith yn llawn.

7.13. Bydd y gwerthusiad hefyd yn edrych ar unrhyw gysylltiad rhwng y Cyfnod Sylfaen, rôl a lles y plentyn (Waldron *et al*. 2014c), a chanlyniadau addysgol.

## Cyfeiriadau


CCC (2001) Y Wlad sy'n Dysgu, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Davies R., Makepeace G., Munday M., Winterbotham, M. a Williams G. (2012) Arolwg Gadawyr y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd 2010, Merthyr: Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. (Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/wefo/report/1206112010esfleaverssurvey2010en.pdf)

Davies, R., Taylor, C., Maynard, T., Rhys, M., Waldron, S., a Blackaby, D. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Canlyniadau Disgyblion Cyfnod Sylfaen (Adroddiad 1), Ymchwil Gymdeithasol Rhif 47/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Kerr, K. a West, M. (Eds) (2010) *Insight 2 – Social Inequality: can schools narrow the gap?* Macclesfield: British Educational Research Association.

Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisïau a Damcaniaeth Rhaglenni, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 37/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2013) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Blynyddol 2011/12, Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2012*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S. Rhys, M., Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2014) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Diweddariad ac Adroddiad Technegol 2012/13. Ymchwil Gymdeithasol Rhif 16/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014a) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Prif Ganfyddiadau am Effeithiau a Adroddwyd, Crynodeb Ymchwil Gymdeithasol Rhif 42/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014b) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Prif Ganfyddiadau am Addysgeg a Dealltwriaeth, Crynodeb Ymchwil Gymdeithasol Rhif 43/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Waldron, S., Rhys, M. a Taylor, C. (2014c) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Prif Ganfyddiadau am Rôl a Lles y Plentyn, Crynodeb Ymchwil Gymdeithasol Rhif 44/2014*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad A. Cynnwys Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

Rhoddwyd rhannau o CGD i'r tîm ymchwil ar ffurf cronfa ddata Mynediad oedd yn cynnwys cyfres o dablau yr oedd modd eu cysylltu â'i gilydd. Dyma grynodeb bras o gynnwys y gronfa ddata.

**CYBLD 2004/05-2010/11 ar gyfer CA1 (Meithrin-Blwyddyn 2)**

- Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gyfrifiad o ddisgyblion a gynhelir bob mis Ionawr. Mae'r data'n rhoi gwybodaeth ar lefel unigolyn am nodweddion demograffeg y disgyblion (oed, ethnigrwydd a chenedl), gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig (gan wahaniaethu rhwng statws AAA yn ôl p'un a ydynt yn ddisgyblion Gweithredu, Gweithredu a Mwy neu â Datganiad) ac a yw'r disgyblion yn cael hawlio Prydau Ysgol am Ddim (PYDd). Mae cofnodion ar gael ar gyfer Meithrin 1, Meithrin 2, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Felly, gall disgyblion fod ar y gronfa ddata am gyfnod o hyd at bum mlynedd, ond yn ystod y cyfnod Derbyn mae'r mwyafrif 'w gweld gyntaf.

**Absenoldeb (Bl.1+, 2007/08+)**

- Mae data ar lefel unigolion yn dangos nifer y sesiynau y mae disgybl wedi'u mynychu yn yr ysgol yn ystod blwyddyn academaidd. Rhoddir cyfanswm nifer y sesiynau y gallai'r disgybl fod wedi'u mynychu yn yr ysgol hefyd, gan gynnig ffordd o fesur cyfran yr amser a dreuliwyd yn yr ysgol. Darperir gwybodaeth am p'un a roddwyd caniatâd am yr absenoldebau hyn hefyd.

**Cymarebau disgyblion-athrawon (Derbyn+, 2004/05+)**

- Mae'r tabl hwn yn rhoi data blynyddol am nifer y disgyblion ac oedolion mewn ysgol. Mae lefel y manylder yn y data yn amrywio fesul ysgol. Dim ond un adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer rhai ysgolion. Mae adroddiadau o'r fath yn cynnwys pob dosbarth (e.e. 5 dosbarth, 80 o blant, 10 o staff). Gydag ysgolion eraill, cyflwynir sawl math o gofnod ar gyfer grwpiau blwyddyn ar wahân, dosbarthiadau neu grwpiau o

ddosbarthiadau. Mae rhai cofnodion yn cyfeirio at grwpiau blynyddoedd cymysg.

**Canlyniadau (disgyblion Blwyddyn 2)**

- Mae data am ganlyniadau ar gael mewn tablau data ar wahân yn ôl p’un a asesir y disgyblion drwy’r Cyfnod Sylfaen neu drwy CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae pob disgybl yn cael cofnodion ar wahân ar gyfer pob pwnc a asesir. Mae lefelau ar gyfer meysydd pwnc ac asesiadau’n wahanol rhwng yr asesiadau a gynhelir drwy CA1 a’r Cyfnod Sylfaen.

## Atodiad B. Trosolwg o Gymathu Sgoriau Tebyg[9]

### Rhagdybiaeth Annibynnol Amodol

Y Rhagdybiaeth Annibynnol Amodol (RhAA) yw'r rhagdybiaeth allweddol a wneir wrth gymathu modelau. Mae hefyd yn cael ei alw'n elfennau i'w hanwybyddu neu eu cymysgu. Gall y grwpiau sy'n cael eu trin neu eu gadael fod yn wahanol gan fod ganddynt nodweddion gwahanol. Mae modd gweld rhai o'r nodweddion hyn (e.e. cenedl neu hil) a gellir eu defnyddio fel newidynnau rheoli i addasu ar gyfer gwahaniaethau rhwng y grwpiau. Ni ellir gweld rhai eraill, ond rhaid i unrhyw gymhariaeth ragdybio nad yw'r elfennau hyn na ellir eu gweld yn cael effaith systematig ar y canlyniadau sy'n amrywio ar draws y ddau ddull. Mae'r RhAA yn ddatganiad o amodau sy'n cynnig ffordd o anwybyddu effeithiau'r ffactorau na welir. Mae'r RhAA neu'r rhagdybiaeth gyfatebol yn sylfaen ar gyfer cymariaethau syml o werthoedd cymedr. Yng nghyd-destun y Cyfnod Sylfaen, mae'n bwysig nad yw'r ysgolion a ddewisir i gymryd rhan wedi'u dewis am resymau na ellir eu gweld a allai gyfrannu at ganlyniadau gwahaniaethol ymhlith yr ysgolion hyn (e.e. ysgolion sy'n tanberfformio).

Mae gan bob disgybl yn y sampl Cyfnod Sylfaen (wedi'i drin) a'r sampl nad ydyw yn y Cyfnod Sylfaen (rheoledig) rai nodweddion y gellir eu gweld fel cenedl, oed, ethnigrwydd, statws PYDd a statws AAA. Cyfeirir at y newidynnau unigol hyn fel $Z_k$ ac ar y cyd fel fector Z. Os rhoddir is-nod 'i' i bob unigolyn, mae'r data'n cynnwys arsylwadau am ganlyniadau a nodweddion ($Y_i$, $Z_i$). Gall pob disgybl ennill gwerthoedd ar gyfer newidyn canlyniad Y (e.e. cyrraedd y lefel asesu ddisgwyliedig), yn gyntaf drwy ragdybio eu bod yn y Cyfnod Sylfaen ($Y_1$) ac yn ail, rhagdybio nad oeddent yn y Cyfnod Sylfaen ($Y_0$). Bydd un o'r rhain yn wir a bydd y llall - y gwrthffeithiol - yn ddamcaniaethol. Mae'r RhAA yn datgan nad yw gwerthoedd y canlyniadau yn y ddau ddull (gwerthoedd $Y_0$ ac $Y_1$) yn dibynnu ar p'un a yw'r unigolyn yn cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen ai peidio wedi i werthoedd y newidynnau

[9] Daw'r deunydd sydd yn yr atodiad hwn o adroddiad Arolwg Gadawyr y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd 2010 (Davies *et al.* 2010) a ddefnyddiodd dechnegau cymathu ystadegol hefyd wrth werthuso effeithiolrwydd ymyriadau â'r farchnad lafur a ariannwyd gan y gronfa.

rheoli gael eu hystyried[10]. Os edrychwn ar ddau unigolyn, A a B, gyda newidynnau rheoli gwerthoedd union yr un fath ($Z_A$=$Z_B$), mae'r gwahaniaethau yng ngwerthoedd eu canlyniadau (gwerthoedd $Y_0$ ac $Y_1$ A a B) yn cael eu pennu ar hap ac nid ydynt yn dibynnu ar p'un a ydynt yn cael eu trin ai peidio. Os yw A yn cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen ac nid yw B yn cymryd rhan ynddo, gallwn ddefnyddio gwerth gwirioneddol $Y_0$ B i ddarogan beth fyddai'n digwydd i A pe na fyddent yn cymryd rhan yn rhaglen y Cyfnod Sylfaen. Yn yr un modd, gallwn ddefnyddio gwerth gwirioneddol $Y_1$ A i ddarogan beth fyddai'n digwydd i B pe byddai'n cymryd rhan yn y rhaglen. Yn ymarferol, byddai'n well gennym leihau'r effaith ar hap a chymharu cyfartaledd gwerthoedd ar gyfer grwpiau cymaradwy.

Mae RhAA yn ymwneud â'r rhagdybiaeth alldarddol mewn modelau atchwel. Dyma'r model atchwel cymaradwy:

$$Y_i = \alpha + \delta D_i + Z_i\beta + \varepsilon_i$$

Mae RhAA yn gwarantu'r rhagdybiaeth alldarddol safonol nad oes cysylltiad rhwng D (fel aelod o'r sampl a gafodd ei thrin) ac $\varepsilon$. Mae'r dull atchwel yn egluro y gallai triniaeth effeithio ar ganlyniad yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy newidiadau yng ngwerthoedd y newidynnau a reolir. Os ydym am amlygu holl effaith y driniaeth hon ar Y, rhaid i ni fynnu nad yw D yn effeithio ar Z. Yn y dehongliad hwn a ddefnyddir wrth gymathu, gall y newidynnau a reolir effeithio ar D ond nid ydynt yn cael eu heffeithio ganddo. Rydym yn rhagdybio bod ein newidynnau a reolir yn cael eu pennu y tu allan i raglen y Cyfnod Sylfaen. Cyfeirir at gymathu weithiau fel dethol pethau y gellir eu gweld. Mae'n addasu effaith y newidynnau y gellir eu gweld ac mae rheolau RhAA yn gwarantu na fydd unrhyw ddethol unochrog pellach gan nad oes unrhyw gysylltiad ar ôl rhwng y newidynnau na ellir eu gweld (y term gwall yn yr atchwel uchod) a statws y driniaeth.

[10] Yn fwy ffurfiol, $((Y_0, Y_1 \perp D) | \boldsymbol{Z})$ lle mae $\boldsymbol{Z}$ yn fector o newidynnau rheoli. Rydym yn defnyddio ***Z*** yn eithaf ffwrdd â hi yma i gynrychiolu cyfres o newidynnau rheoli damcaniaethol gywir yn ogystal â'r rhai a ddefnyddiwyd yma go iawn.

**Cymorth cyffredin**

Cymorth cyffredin yw'r parth lle mae modd cael cymhariaeth uniongyrchol rhwng y grwpiau a reolir a'r grwpiau sy'n cael eu trin. Yn syml, dyma'r gyfres o unigolion yn y grwpiau a reolir a'r grwpiau sy'n cael eu trin sy'n rhannu gwerthoedd tebyg o'r newidynnau a reolir. O dan yr amgylchiadau priodol, gallai fod disgwyl iddynt yn rhesymol i fod yn y naill grŵp neu'r llall. Pe byddai rhai mathau o ddisgyblion sydd bob amser yn cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen, ni fyddai unigolion cymaradwy yng ngweddill y sampl CGD i allu cymharu eu canlyniadau'n uniongyrchol â nhw. Un o wendidau archwiliad sy'n seiliedig ar atchwel, yw'r ffaith y gallai wneud cymariaethau o'r fath drwy allosod profiad y sampl nad oeddent yn y Cyfnod Sylfaen mewn meysydd amhriodol. Mae cymathu rheolau eglurhaol yn cael gwared ar y posibilrwydd hwn drwy gyfyngu ar gymariaethau yn y parth cymorth cyffredin. Ceir cymathu drwy gymryd pob unigolyn sydd wedi'i drin a chanfod unigolyn yn y grŵp a reolir gyda nodweddion tebyg. O ystyried y nifer isel o ysgolion a gymerodd ran wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen am y tro cyntaf, dylai fod disgyblion cymaradwy ar gael ymhlith y disgyblion oedd y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen.

**Cymathu Sgoriau tebyg**

Y sgôr gogwydd yw'r tebygolrwydd o ddisgybl yn cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen. Fe'i diffinnir fel:

$$p(Z) = Pr(D=1|\ Z)$$

Yn ymarferol, amcangyfrifir y sgôr gogwydd drwy ddefnyddio model probid neu logid.

Mae RhAA yn awgrymu nad yw gwerthoedd y canlyniadau ym mhob dull (gwerthoedd $Y_0$ ac $Y_1$) yn dibynnu ar p'un a yw'r disgybl yn cymryd rhan yn y Cyfnod Sylfaen ai peidio ar ôl ystyried gwerthoedd y sgôr gogwydd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gallwn gymathu sgôr gogwydd[11]. In. Yn gysyniadol, y math symlaf o gymathu sgôr yw cymathu'r agosaf. Y sawl sydd yn y sampl heb ei thrin ac sydd agosaf o ran sgôr gogwydd yw'r cymydog

[11] Yn fwy ffurfiol, $((Y_0, Y_1 \perp D)|\ p(\boldsymbol{Z})$ lle mae $p(\boldsymbol{Z})$ y gwir sgôr gogwydd.

agosaf yn y sampl sydd wedi'i thrin[12]. Gall y maen prawf hwn roi parau gwael, yn enwedig os oes nifer isel yn y sampl a reolir ac mae caliper yn cael ei benodi'n aml. Mae'r caliper yn pennu uchafswm gwahaniaeth derbyniol rhwng y ddwy sgôr gogwydd. Mae penderfynu beth i'w wneud pan fo nifer cymharol fychan o reolaethau yn broblem ymarferol arall. Mae cymathu heb ailosod yn rhoi'r pâr agosaf rhwng yr arsylwad a reolir a'r un a gafodd ei drin, ac mae'n cael gwared ar y rheolaeth gyfatebol o'r rhestr sydd ar gael ar gyfer cymathu. Mae cymathu ac ailosod yn golygu y gall pob rheolydd gael ei gymathu â mwy nag un arsylwad wedi'i drin. Ar ôl cymathu pob un, dychwelir y rheolydd i'r gronfa i fod ar gael ar gyfer cymathu.

[12] Gwerth absoliwt y gwahaniaeth mewn sgoriau tebyg yw'r pellter a fesurir. Mae mesuriadau eraill o bellter yn bosibl.